Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/penderfyndiadau-cynllunio-ac-amgylchedd-cymru/beth-rydym-yn-ei-wneud
https://www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-ceisiadau

PCAC
PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# CAIS AM WASANAETHAU CYN-YMGEISIO DAN REOLIAD 6 RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016 (FELY'I DIWYGIWYD)

## GWYBODAETH BWYSIG

DARLLENWCH CYN CYFLWYNO'R FFURFLEN HON:
Mae'r cyngor cyn-ymgeisio a roddwn yn cael ei gynnig heb ragfarn i unrhyw ystyriaeth o geisiadau cynllunio cysylltiedig yn y dyfodol ac yn cael ei roi ar sail y wybodaeth a roddwyd gennych ar adeg eich cais yn unig. Mae ffioedd yn daladwy am y cyngor cyn-ymgeisio a roddwn, fel y nodir yn adran 11 y ffurflen hon.

Rydym yn eich annog yn gryf i drafod eich cais gyda ni cyn cyflwyno'r ffurflen hon, er mwyn i ni allu sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i ymdrin â'ch cais a'r trefniadau ar gyfer anfonebu ffioedd yn eu lle pan fyddwn yn ei gael. Os na fyddwch yn rhoi rhybudd i ni ymlaen llaw, gallai hyn achosi oedi wrth ymdrin â'ch cais a rhoi ein cyngor.

Mae cyngor ar wasanaethau cyn-ymgeisio wedi'i gynnwys yn ein canllawiau gweithdrefnol yma https://www.llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllawiau

Dylech gyfeirio at y cyngor hwnnw wrth wneud eich cais a llenwi'r ffurflen hon.

**Cyfeirnod Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC)**
Lle y cafwyd cyngor blaenorol cyn cyflwyno cais cynllunio neu os rhoddwyd hysbysiad ffurfiol o gais DNS eisoes.

**Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)**

## 1. YMGEISYDD

Enw

Enw'r sefydliad
(os yw'n berthnasol)

## 2. ASIANT (os oes un) AR GYFER Y CAIS

Enw cyswllt

Enw'r sefydliad
(os yw'n berthnasol)

Eich Cyfeirnod

**3. CYFARFODYDD CYN-YMGEISIO**

Ydych chi'n gofyn am gyfarfod â'n swyddogion drwy Teams i ydw drafod eich cais am gyngor cyn-ymgeisio? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, rhowch fanylion am eich dyddiad a'ch amser dewisol:

---

**4. LLEOLIAD NEU LWYBR CYNNIG Y DATBLYGIAD**

Rhaid rhoi datganiad byr sy'n nodi'n glir leoliad safle'r cais neu'r llwybr os yw'n gynllun llinol. Dylid ystyried defnyddio cyfeirnodau grid priodol, fel cyfeirnodau grid mapiau'r Arolwg Ordnans, cyfeirnodau lledred/hydred ac ati. Disgrifiad o leoliad safle(oedd) y cais neu lwybr y datblygiad (Cyfeiriwch at gynlluniau priodol)

A yw'n safle sengl neu'n safle llinol? Sengl ☐ Llinol ☐

Rhowch gyfeirnod(au) grid

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SENGL: | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: Dechrau | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: Canol | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINOL: Diwedd | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |

---

**5. DISGRIFIAD ANNHECHNEGOL O GYNNIG Y DATBLYGIAD NEU AGWEDD(AU) AR Y CYNNIG SY'N YMWNEUD Â'R CAIS HWN AM GYNGOR CYN-YMGEISIO**

Y disgrifiad diweddaraf o'r cynnig arfaethedig ar adeg eich cais, dyna ddylai hwn fod.

**6. CYNGOR CYN-YMGEISIO A GAFWYD GENNYM NI NEU GAN GYRFF ERAILL**

Rhowch ddisgrifiad cryno o unrhyw gyngor cyn-ymgeisio a gafwyd gan gyrff eraill e.e. yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ymgyngoreion statudol eraill. Dylid cynnwys copi o'r cyngor hwnnw gyda'r cais hwn.

## 7. NATUR Y CYNGOR CYN-YMGEISIO SYDD EI ANGEN

Ticiwch ba rai o'r canlynol y mae'r cais hwn yn gysylltiedig â nhw.

A. Y cynllun sy'n destun y cais cynllunio arfaethedig ☐

B. Elfen o'r prosiect sy'n destun caniatâd eilaidd – rhowch fanylion isod ☐

C. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ☐

Ch. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ☐

D. Ymgysylltu ac/neu Ymgynghori ☐

Dd. Cyngor gweithdrefnol yn ymwneud â chyflwyno neu archwilio ☐

## 8. DISGRIFIAD O'R CAIS AM GYNGOR CYN-YMGEISIO

Disgrifiwch y cyngor y gofynnir amdano, gan gynnwys pa elfennau o'r cynllun arfaethedig y mae'n berthnasol iddynt a'r pwnc dan sylw e.e. yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol; trafnidiaeth; bioamrywiaeth ac ati.

## 9. SGRINIO A CHWMPASU'R ASESIAD O'R EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Pa ystyriaeth a roddwyd i'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer y cynllun?

## 10. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

Rhowch restr o'r dogfennau rydych yn eu darparu i ategu eich cais am gyngor cyn-ymgeisio a chadarnhewch eich bod wedi cynnwys copïau gyda'ch cais.

Ticiwch y blychau i gadarnhau pa ddogfennau/tystiolaeth rydych chi wedi'u darparu

1. Dogfennau i ategu eich cais am gyngor cyn-ymgeisio (rhestrwch y rhain isod). ☐

## 10. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL (parhad)

Rhowch restr o'r dogfennau rydych yn eu darparu i ategu eich cais am gyngor cyn-ymgeisio a chadarnhewch eich bod wedi cynnwys copïau gyda'ch cais.

Ticiwch y blychau i gadarnhau pa ddogfennau/tystiolaeth rydych chi wedi'u darparu

2. Copi o unrhyw gyngor cyn-ymgeisio a gafwyd gennym ni neu gyrff eraill (gweler adran 6 uchod). ☐

3. Copi o gynllun yn nodi'r tir y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef (rhaid ei luniadu i raddfa a nodwyd a dangos cyfeiriad y gogledd) – Dylai hyn gynnwys manylion am unrhyw safleoedd statudol neu anstatudol neu nodweddion o bwysigrwydd o ran cadwraeth natur, daearegol neu'r dirwedd; cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion amrywiaeth eraill; a chyrff dŵr mewn cynllun rheoli basn afon. ☐

4. Copi o unrhyw gynlluniau ychwanegol (rhaid eu lluniadu i raddfa a nodwyd a dangos cyfeiriad y gogledd), lluniadau neu ddogfennau angenrheidiol i lywio'r cais hwn am gyngor cyn-ymgeisio. ☐

## 11. FFIOEDD AC AMSERLENNI AR GYFER CYNGOR CYN-YMGEISIO

Rheoliadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar geisiadau yn debygol o gynnwys asesiad wrth y ddesg; bydd natur y gwaith a wneir a'r amser a dreulir yn cael eu cofnodi a byddant ar gael i chi. Ni chodir tâl am gyflawni swyddogaeth statudol, fel sgrinio a chwmpasu'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol. Fodd bynnag, codir tâl am unrhyw gyngor cyn-ymgeisio yn ymwneud ag Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sydd y tu allan i'r broses statudol. Byddwn yn anfon anfoneb atoch ar gyfer y ffioedd perthnasol ar ôl i ni roi ein cyngor. Sicrhewch fod y manylion cyswllt perthnasol wedi'u rhoi yn yr adran berthnasol.

Rhaid i anfonebau gael eu talu cyn pen 21 diwrnod gwaith; os na chânt eu talu o fewn yr amser hwnnw, bydd unrhyw geisiadau pellach yn cael eu gwrthod hyd nes caiff taliad ei wneud.

Mae'n ofynnol i ni ymdrin â cheisiadau am gyngor cyn-ymgeisio cyn pen **28 diwrnod o ddyddiad y cais neu unrhyw gyfnod hwy sy'n cael ei bennu gan Weinidogion Cymru (neu, yn yr achos hwn, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC))**. Yn ymarferol, byddwn yn ceisio bodloni'r amser gweithredu o 28 diwrnod mewn achosion symlach, ond mae'n debygol y byddwn yn cytuno â chi ar gyfnod fwy ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth. Byddwn yn ceisio bod yn glir ymlaen llaw ynghylch yr amserlenni posibl ar gyfer prosesu ceisiadau, yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael, a dylech fod yn realistig o ran eich disgwyliadau ar gyfer cael cyngor cyn-ymgeisio wrth baratoi eich cais.

**Ein nod fydd cadarnhau eich bod wedi derbyn eich cais a'r amserlenni tebygol a'r costau cysylltiedig cyn pen 3 diwrnod gwaith.**

## 12. CYHOEDDI CYNGOR CYN-YMGEISIO

Bwriedir i'r broses o wneud cais DNS fod yn dryloyw ac yn gynhwysol. Fel y cyfryw, byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyngor cyn-ymgeisio a roddwn ar gael ar-lein i unigolion, sefydliadau ac ymgeiswyr sydd â buddiant yn y broses DNS. Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall bod angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng bod yn agored a galluogi darpar fuddsoddwyr i ddiogelu gwybodaeth sensitif yn ystod camau cynharaf y drafodaeth. Felly, byddwn yn ceisio eich cytundeb i ni gyhoeddi ein cyngor cyn gynted ag y bydd wedi'i roi i chi a byddwn fel arall yn gohirio ei gyhoeddi hyd nes bydd y cais wedi'i ddilysu neu hyd nes bydd y cyfnod hysbysu cyn-ymgeisio wedi dod i ben.

Dylech nodi ein rhwymedigaethau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Gall y rhain, yn dilyn cais, ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu unrhyw wybodaeth heb ei chyhoeddi y cytunwyd i ohirio ei chyhoeddi, naill ai lle nad yw esemptiad neu eithriad yn berthnasol neu, dan holl amgylchiadau'r achos, os yw'r budd cyhoeddus yn sgil datgelu'r wybodaeth yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o gynnal yr esemptiad neu'r eithriad.

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

## 1. MANYLION PERSONOL YR YMGEISYDD

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

## 2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes un)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

**3. ARALL** (rhan 3)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| E-bost | |

Cysylltwch â mi drwy'r E-bost ☐ Post ☐

---

**4. MANYLION CYSWLLT AR GYFER ANFONEBU**

Rhowch fanylion cyswllt i'n tîm cyllid eu defnyddio wrth anfonebu:

| | |
|---|---|
| Enw | |
| E-bost | |

---

Mae casglu a phrosesu'r data personol a ddarparwyd gennych chi ar y ffurflen hon yn unol â thelerau ein cofrestriad dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael yn https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

**DATGANIAD YN YMWNEUD Â CHAIS AM GYNGOR CYN-YMGEISIO**

Cadarnhaf fy mod wedi amgáu neu atodi copïau o'r cynlluniau, lluniadau a'r dogfennau a amlinellir yn adran 10. ☐

Cadarnhaf fod pob adran wedi'i llenwi a bod y manylion a roddwyd yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. ☐

Deallaf y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y gellir cyhoeddi'r cyngor cyn-ymgeisio a roddwch ar-lein, fel y disgrifir yn adran 12. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. ☐

| | |
|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

---

**Dylid anfon NAILL AI 1 COPI ELECTRONIG neu 1 COPI PAPUR atom ni yn:**

E-bost: PEDW.Seilwaith@llyw.cymru

Tîm Gwaith Achos DNS
PCAC
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: 0300 123 1590

---

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 WG48181